LONDON WELSH SCHOOL
YSGOL GYMRAEG LLUNDAIN

Y Llundeinwr

Dydd Gwener 23ain Medi 2022

Dilynwch ni ar **Facebook**, **Twitter** ac **Instagram**
Gwefan: https://ysgolgymraegllundain.co.uk/

Annwyl Ysgol Gymraeg Llundain,

Daeth camerâu ITN i mewn ddydd Gwener diwethaf gan fod Y Brenin Siarl yn ymweld â Chaerdydd - fe siaradodd y plant yn andros o dda gyda'r gohebydd - trueni i'r ffilm beidio â chael ei defnyddio ar y newyddion!

Cafwyd Gwasanaeth yn yr ysgol ar yr un diwrnod i ddathlu Diwrnod Owain Glyndŵr. Diolch i un o'n disgyblion am ddod ag arteffactau Owain Glyndŵr i'r ysgol.

Roeddem yn ddiolchgar iawn am y croeso cynnes gafwyd yng Nghlwb Rygbi Cymry Llundain ddydd Sadwrn. Braf oedd gweld y plant yn rhoi croeso i'r chwaraewyr i'r cae gan floeddio a chwifio baneri.

Bydd y Llywodraethwyr yn cael eu cyfarfod cyntaf dydd Mercher, Hydref 5ed - cofiwch ein bod yn chwilio am Gynrychiolydd Rhieni newydd i'r Bwrdd - os â ddiddordeb, mae'r swyddfa wedi anfon ffurflenni i'w llenwi.

Hwyl am y tro,
Mrs Brady

Newyddion o'r Nyth

Blynyddoedd Cynnar

Daeth yr Hydref i'r Nyth yr wythnos hon, a thrwy'r wythnos rydym ni wedi bod yn dysgu am y tymor arbennig hwn. Dechreuon ni'r wythnos trwy fynd am dro yn ein hardal leol i gasglu gwrthychau hydrefol, megis brigau a dail. Aethom ni ati wedyn i ddysgu cân newydd o'r enw 'Yn yr Hydref' a chyn diwedd yr wythnos byddwn ni'n adeiladu tŷ i falwoden.

Y Diweddaraf o'r Dosbarth

Dosbarth Robin Goch

Aethom ni amdani gyda'n cyd-destun dysgu newydd yr wythnos hon, sef 'Mor Hyfryd yw'r Byd'. Aethom ni ati i archwilio anifeiliaid gwahanol a'u cynfefinoedd. Cyn diwedd yr wythnos byddwn ni'n dechrau ystyried sut mae cynhesu byd eang wedi achosi i'r cynefinoedd hyn newid.

Yr wythnos nesaf bydd y dosbarth yn ymweld â'r Amgueddfa Hanes Naturiol ble byddwn ni'n gwylio sioe arbennig am anifeiliaid y môr a'u cynefinoedd. Rydym ni i gyd yn edrych ymlaen yn fawr! Cofiwch ddod â'ch ffurflenni caniatâd yn ôl i'r ysgol os nad ydych chi eisoes wedi gwneud.

Hwyl Gyda'r Hwyr

Gofal Cofleidiol a Chlybiau

Yr wythnos hon yng Nghlwb Hwyl, dechreuon ni drwy ddarganfod mwy am y ddrama 'Much Ado About Nothing'. Wedi i ni ddysgu ystyr y gair 'ado' gwnaethom ni ymchwilio i leoliad y ddrama, sef Sisili. Rhoesom ni gynnig ar actio, cyn dylunio ein gwisgoedd ein hunain. Yr wythnos nesaf, byddwn ni'n paratoi mygydau.

Gwybodaeth a Dyddiadau Pwysig

Dyma'r hyn sydd i ddod cyn bo hir:

- 7. 10. 22 - Bore Agored Ffrangeg
- 22. 10. 22 - Emporiwm Nwyddau Cymreig
- 29. 10. 22 - Gŵyl Halibalw Llundain